

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.3 Gwneud ceisiadau i gyrff ariannu



Gwneud ceisiadau i gyrff ariannu

Ceir llawer o ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau nad ydynt yn defnyddio ffurflenni, na hyd yn oed yn rhoi canllawiau am yr hyn y maent am gael gwybod amdano – cais mewn ysgrifen yw'r cwbl y maent yn ei ofyn. Nid oes unrhyw reolau pendant, ond dyma awgrym o fframwaith ar gyfer cais.

Pwyntiau cyffredinol

- Byddwch yn fyr – ni ddylai'r llythyr a'r cynnig fod yn fwy na 3 - 4 o dudalennau o hyd.
- Gwnewch ymchwil yn gyntaf – dylech ddarganfod cymaint ag y gallwch am y rhoddwr, ei diddordebau a'i batrwm rhoi cyn ysgrifennu ato.
- Dylech gyfeirio'ch cais at unigolyn sydd wedi'i enwi – gofalgwch fod y manylion diweddaraf gennych.
- Defnyddiwch iaith syml, glir a dealladwy – peidiwch â defnyddio jargon neu rethreg.
- Os byddwch yn atodi gwybodaeth ategol, cofiwch nad oes sicrwydd y bydd rhywun yn ei darllen. Rhaid rhoi popeth **hanfodol** yng nghorff y cynnig.

Cynnwys y cynnig

Teitl

A allwch feddwl am deitl bachog sy'n cyfleu beth yr ydych am ei wneud?

Crynodeb o'r prosiect

Dyma'r peth olaf i'w ysgrifennu. Rhaid iddo gyfleu prif bwyntiau'r prosiect, a dangos ei gysylltiad â diddordebau'r rhoddwr. Efallai mai dim ond y rhan hon o'r cais y bydd yn ei ddarllen. Gellir cynnwys y crynodeb yng nghorff y cynnig neu yn y llythyr sydd gydag ef.

Rhagymadrodd

Ar ôl brawddeg syml i ddweud pwy ydych a beth rydych yn ei wneud, rhowch unrhyw wybodaeth a fydd yn hybu eich hygyrdd, ac yn argyhoeddi cyrff ariannu eich bod yn gymwys i redeg prosiect. Pa waith a wnaethoch yn y gorffennol, pa lwyddiannau mawr a gawsoch?

Datganiad am broblemau

Rhaid ichi egluro'r problemau yr ydych yn ceisio delio â nhw.

- Soniwch am bobl – dangoswch eich bod yn cael eich arwain gan y galw.
- Rhowch ddisgrifiad diriaethol o'r broblem, nid un haniaethol, nodwch yr effeithiau gwael gan ddefnyddio iaith bob dydd. Ceisiwch ddweud beth yw'r broblem ac wedyn gofyn 'beth yw'r ots?' er mwyn cael egluro'r effeithiau tymor hir.
- Nodwch fod angen gweithredu ar frys a bod dadl dros ymyrryd ar unwaith.
- Dangoswch fod modd datrys y broblem. Rhowch dystiolaeth i ategu beth yr ydych yn ei ddweud. Un modd i wneud hynny yw defnyddio ystadegau, ond mae ffyrdd eraill – beth am astudiaethau achos, neu ddatganiadau gan gyn-gleientiaid?

Y rhaglen a'r dulliau

Beth fyddwch yn ei wneud, a sut? Ar ôl diffinio'r broblem, rhaid egluro sut rydych yn bwriadu gwneud gwahaniaeth.

- Beth yw'ch amcanion – a allwch nodi canlyniadau penodol mesuradwy? Disgrifiwch pwy yn union y byddwch yn ei helpu, maint y gwasanaeth, a'r effaith ddisgwyliedig.
- Pa weithgareddau a fydd gennych i gyflawni'r amcanion? A allwch gyfiawnhau'ch dull gweithredu? A allwch ddangos y bydd eich gweithgareddau'n delio â'r broblem yr ydych wedi'i nodi?

Gwerthuso

Sut byddwch yn gwybod eich bod wedi llwyddo? Beth fyddwch yn ei fesur neu ei gofnodi? Sut byddwch yn cael gwybod a yw'r gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth?

Cyllideb

Efallai y bydd angen ichi atodi dadansoddiad manwl o'r costau, ond bydd y cynnig am brosiect yn cynnwys crynodeb. Os ydych yn ymgeisio am grant dros sawl blwyddyn, dangoswch y costau ar gyfer pob blwyddyn. Peidiwch ag anghofio chwyddiant – mae gan rai cyrff ariannu ffyrdd penodol o ddelio â hynny ac, os yw'n berthnasol, eglurwch yr angen i adennill yr holl gostau.

Bydd cyllidebau'n cynnwys dwy brif elfen, costau craidd a chostau prosiect. Fel arfer, mae costau craidd yn cynnwys: staffio; adeiladau; ffioedd proffesiynol a chostau swyddfa. Bydd costau prosiect yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhain yn ymwneud â natur eich mudiad a'i weithgareddau .

Wrth lunio'ch cyllideb, peidiwch ag anghofio amser sydd wedi'i roi am ddim gan wirfoddolwyr. Gellir defnyddio hwnnw'n aml i ddarparu 'arian cyfatebol' a dangos i gyrff ariannu eich bod yn gallu darparu'r adnoddau angenrheidiol. Wrth brisio amser gwirfoddolwyr, rhaid nodi cyfradd addas yr awr sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y maent yn eu rhoi.

Cynllun ariannu

Os nad ydych yn gofyn am y swm llawn, rhaid ichi ddangos o ble rydych yn bwriadu cael y gweddill. Os yw'r prosiect yn un parhaol, rhaid ichi egluro o ble rydych yn bwriadu cael arian i barhau ar ôl y cyfnod cyntaf. Fel arall, bydd mwy a mwy o gyrff ariannu yn disgwyl gweld strategaeth ymadael drefnus a chynhwysfawr.

Y cais a'r sail resymegol

Peidiwch â bod yn swil ynghylch gofyn am swm penodol – gofalgwch ei fod yn rhesymol yng ngolwg yr hyn yr ydych yn ei wybod o ganllawiau'r ymddiriedolaeth a grantiau eraill. Os na fyddwch yn gwneud hynny yn eich llythyr esboniadol, eglurwch pam yr ydych yn credu y dylai'r corff ariannu ymddiddori yn eich prosiect – beth yw'r cysylltiad rhyngddo a'i feysydd diddordeb?

Sut i ddod o hyd i ffynonellau ariannu

Ar ôl dilyn y canllawiau uchod, mae'n hollbwysig ichi ganfod pa ffynonellau ariannu sy'n fwyaf perthnasol i'ch nodau a'ch amcanion. Mae'r adnoddau canlynol yn cynnig mwy o gyngor a chyfarwyddyd ymarferol.

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

Canllaw Ariannu yng Nghymru

Mae'r llyfr rhagorol hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyrff ariannu a gafwyd o lu o ffynonellau. Mae'n gynhwysfawr, yn ddwyieithog ac yn hawdd ei ddefnyddio. Mae'n cynnwys: ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau; cwmnïau; y Loteri Genedlaethol; ffynonellau llywodraeth; yr Undeb Ewropeaidd; WCVA.

Ceir cyngor ym mhob adran am y modd gorau i gysylltu â'r corff ariannu er mwyn cael y cyfle gorau i gael ei gefnogaeth. Mae'r llyfr hwn yn ddelfrydol i bawb sy'n codi arian ar gyfer elusen neu grwp cymunedol yng Nghymru.

A Guide to the Major Trusts

Mae'r arweiniad hwn, sydd mewn dwy gyfrol, yn gymorth hanfodol i bawb sy'n ymgeisio am arian i elusen gan ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n rhoi grantiau. Mae'r gyfrol gyntaf yn cynnwys 400 o'r ymddiriedolaethau mwyaf a'r ail yn trafod 1,200 o rai eraill.

The Directory of Grant Making Trusts

Mae wedi'i gynhyrchu gan DSC ar y cyd â CAF, ac mae'n cynnwys yr ymddiriedolaethau a'r sefydliadau mwyaf sy'n rhoi grantiau yn y DU.

The Grant-making Trusts CD-ROM

Mae'r CD-ROM hon yn cynnwys gwybodaeth am fwy na 4,500 o ymddiriedolaethau sydd yng nghronfeydd data DSC a CAF.

www.trustfunding.org.uk

Drwy dalu tanysgrifiad ar gyfer defnyddio'r wefan hon, ceir mynediad at ystod o wybodaeth sy'n debyg i'r hyn sydd ar y CD-ROM uchod, ond ceir hysbysiadau rheolaidd hefyd am y manylion diweddaraf.

A Guide to Grants for Individuals in Need a The Educational Grants Directory

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn delio â ffynonellau ariannu ar gyfer unigolion yn hytrach na grwpiau. Gellir cael gwybodaeth fanylach o'r wefan ganlynol

www.grantsforindividuals.org.uk

The Guide to UK Company Giving

Manylion mwy na 500,000 o gwmnïau ledled y DU sydd gyda'i gilydd yn rhoi rhoddion ariannol o £290,000.

Mae'r holl gyhoeddiadau uchod ar gael, am eu cost yn unig, gan:

Directory of Social Change,
24 Stephenson Way, Llundain NW1 2DP

Ffôn: 08450 777707

Ffacs: 020 73914804

books@dsc.org.uk

www.dsc.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk